Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Village
# Dyddiad y gweithgarwch: 20 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mehefin 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-524-9



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Village fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd ac arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig a'r Prif Ddeintydd ar 20 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- asesiad risg y practis ar gyfer COVID-19 wrth ailddechrau darparu gwasanaethau deintyddol
- cynllun gweithredu'r asesiadau risg tân diweddaraf
- cynllun gweithredu'r asesiad risg iechyd a diogelwch diweddaraf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer y staff a'r cleifion ar gael yn ogystal â mannau diheintio dwylo ar hyd a lled y practis. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod modd glanhau'n amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddaru ei Weithdrefn Gweithredu Safonol yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd o fewn y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion yng Nghymru nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Dywedwyd wrthym y byddai timau o staff yn parhau'n gyson lle bo'n bosibl er mwyn lleihau cyswllt diangen rhwng aelodau o staff eraill.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 o fewn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw oedd yn gallu ymweld â'r practis. Roedd celfi a seddi wedi cael eu symud o'r ystafelloedd aros. Roedd pob eitem ddiangen wedi cael ei symud o'r ystafelloedd triniaeth.

Dywedwyd wrthym y gofynnir i gleifion fynychu eu hapwyntiadau ar amser a pheidio â chyrraedd yn gynt gan nad oedd ardaloedd aros i gleifion ar gael. Bydd drysau'r practis yn aros ar gau nes bod y ddeintyddfa lle y bydd y claf yn cael ei drin yn barod i'w dderbyn. Roedd yn ofynnol i'r cleifion ddefnyddio'r system intercom sydd wedi'i gosod ar y tu allan i roi gwybod i'r practis eu bod wedi cyrraedd. Mae system unffordd wedi cael ei rhoi ar waith o amgylch y practis er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o gyswllt rhwng y staff a'r cleifion. Wrth fynd i mewn i'r practis, bydd y staff yn mesur tymheredd pob claf ac yna'n ei gofnodi, yn darparu masg wyneb (os oes angen un) ac yn cynnig hylif diheintio dwylo. Yna, caiff y claf ei hebrwng i'r ystafell driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, byddai'r practis yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff warchod[1] neu ymgymryd â swydd wahanol yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod digon o gyfarpar ym mhob deintyddfa i gynnal Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol (AGP)[2]. Roedd system cymorth anadlu mecanyddol wedi'i gosod er mwyn hwyluso'r broses o ddileu aer halogedig. Roedd y deintyddfeydd yn destun cyfnod segur[3] yn dilyn gweithdrefnau AGP, yn unol â'u system awyru.

Er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion, roedd llai o apwyntiadau ar gael. Dywedodd y staff fod hyn wedi effeithio ar argaeledd apwyntiadau, ond bod hyn yn cael ei reoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod modd i'r cleifion gael y gofal sydd ei angen arnynt o hyd.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg penodol i COVID-19 a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac asesiad risg amgylcheddol a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2020. Roedd y mesurau rheoli presennol neu'r camau gweithredu gofynnol yn cael eu dogfennu yn yr asesiadau, ynghyd â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisi COVID-19
- Polisi rheoli heintiau
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[4] a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Amserlenni glanhau'r deintyddfeydd

[1] Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio'r ffordd y dylai'r bobl risg uchel amddiffyn eu hunain drwy beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb.
[2] Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[3] Ystyr cyfnod segur yw'r amser sy'n ofynnol yn dilyn AGP er mwyn i'r aer gael ei gylchredeg ac i ronynnau sy'n achosi haint gael eu tynnu o'r ddeintyddfa.
[4] Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Darparwyd amryw ddogfennau inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys Protocolau ac Asesiadau Risg ar gyfer Gweithio yn ystod Pandemig y Coronafeirws. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad Atal a Rheoli Heintiau, ynghyd ag amserlenni glanhau'r practis a chofnodion ar gyfer dihalogi offerynnau a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i atal a rheoli heintiau, ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn nogfen Gweithdrefn Gweithredu Safonol y practis oedd yn nodi camau gweithredu a chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. At hynny, dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar PPE, gan gynnwys hyfforddiant ar fasgiau a gwisgo a diosg PPE. Roedd archwiliadau gwisgo a diosg yn cael eu cynnal yn wythnosol yn y practis.

Oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol, cafodd cyfarfodydd staff eu cynnal ar ffurf galwadau fideo pan oedd y pandemig ar ei waethaf, ond roedd y practis bellach yn defnyddio cyfuniad o gyfarfodydd rhithwir a chyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo modd bodloni'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis er mwyn sicrhau bod y staff yn cael gwybod am y gweithdrefnau diweddaraf ar gyfer gweithio yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym mai'r nyrsys deintyddol oedd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarpar gofynnol cyn pob apwyntiad a'u rhoi mewn blychau fel eu bod wrth law ym mhob sesiwn driniaeth. Diben hyn yw lleihau nifer y staff sy'n mynd i mewn i'r ddeintyddfa neu'n ei gadael yn ystod y driniaeth.

Esboniodd y staff eu bod yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn penderfynu a oeddent mewn perygl o drosglwyddo'r feirws. Wrth gyrraedd y practis, caiff tymheredd y cleifion ei fesur a dilynir y weithdrefn a nodir yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion wrth fynd i mewn i'r practis. Cafodd cleifion a oedd yn dangos symptomau neu'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 gyfarwyddyd i aros gartref ac i beidio â mynychu'r practis.

Nododd y practis fod ganddo ddigon o gyfarpar diogelu personol a bod gwiriadau stoc rheolaidd yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym fod aelod o'r staff yn goruchwylio'r stociau canolog ac yn archebu mwy drwy system ar-lein yn rheolaidd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol. Esboniodd y staff y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol hefyd. Roedd y staff wedi parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu[5] ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Hefyd, gellid trefnu hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn grwpiau bach i'r staff pan fo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn aros yn gyfredol.

Dywedwyd wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod camau cyntaf y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi parhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer gweld cleifion brys, ar ôl eu sgrinio am COVID-19. Pan fyddai angen i gleifion a oedd yn arddangos symptomau COVID-19 gael gofal deintyddol brys, gallai'r practis eu hatgyfeirio at wasanaeth roedd y bwrdd iechyd wedi'i roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod modd darparu gofal cleifion yn unol â'u hanghenion.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd wedi'u gwneud a'r camau sydd wedi'u cymryd hyd yma ar gyfer achosion pan fydd angen i aelodau o'r staff hunanynysu neu pan fyddant yn cael prawf COVID-19 positif. Cawsom esboniad manwl o'r weithdrefn ynghyd ag enghreifftiau o'r ffordd y mae hyn wedi gweithio hyd yma. Roeddem yn fodlon bod y gweithdrefnau hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ledaenu COVID-19 ymhlith y staff a'r cleifion.

[5] Dysgu a gynhelir drwy gyfryngau electronig, ar y rhyngrwyd fel arfer.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, ac mae'r prif ddeintydd a'r rheolwr cofrestredig yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac esboniwyd y broses hon yn fanwl. Roedd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu rhannu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff a negeseuon e-bost.

Esboniwyd y broses o wirio'r cyfarpar mewn argyfwng a'r meddyginiaethau. Mae un aelod o'r staff yn gyfrifol am gyflawni'r gwiriadau a chymharu'r canfyddiadau â'r wybodaeth sydd mewn meddalwedd ar-lein. Mae'r feddalwedd a ddefnyddir hefyd yn galluogi'r practis i gael diweddariadau electronig pan fydd eitemau'n nesáu at ddiwedd eu hoes silff, gan gynnig ail haen o amddiffyniad i'r practis.

Cawsom wybod fod y practis hefyd yn cadw ail set o offer er mwyn rhoi gofal cartref, ond roedd yr opsiwn gofal hwn wedi dod i ben yn ystod pandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd y practis wedi gwneud trefniadau gyda chartrefi gofal lleol i dderbyn cleifion yn y practis, gan roi mesurau diogelu ychwanegol ar waith am fod y cleifion yn agored i niwed. Dywedwyd wrthym fod yr offer argyfwng yn cael eu cadw yn unol ag offer y practis.

Gwnaethom ddarllen y daflen wybodaeth i gleifion[6] a'r datganiad o ddiben[7], a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac sydd ar gael gan y practis ar gais.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[6] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.
[7] Ystyr "datganiad o ddiben" yw'r datganiad a luniwyd yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella'n systemig mewn rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.